

Disgrifiad Swydd Ymddiriedolwr



Rôl: Ymddiriedolwr

Cyflog: Mae hon yn rôl wirfoddol. Nid oes tâl, ond byddwn yn talu am gostau teithio a lluniaeth pan fyddwch chi'n gwneud gwaith i ni.

**Pa mor hir
mae'r rôl yn
para:**

3 blynedd. Gallwch aros hyd at 9 mlynedd trwy gytundeb.

**Pwy sy'n eich
cefnogi:**

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**Pwrpas y
rôl:**

Helpu Anabledd Dysgu Cymru (ADC) i wneud ei waith a dilyn ei ddogfennau llywodraethiant.

Mae pob ymddiriedolwr yn rhannu'r un cyfrifoldeb.

Yr hyn y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ei wneud:

- ✓ Gwneud penderfyniadau sydd orau i ADC a chefnogi ei bwrpas.
- ✓ Dewis y Cadeirydd a'r Trysorydd.
- ✓ Gwneud yn siŵr bod ADC yn defnyddio ac yn rheoli ei arian yn iawn.
- ✓ Cymeradwyo'r gyllideb flynyddol a'r cyfrifon
- ✓ Gwneud yn siŵr bod ADC yn gofalu am ei staff.

- ✓ Gwneud yn siŵr bod y Cadeirydd yn cefnogi ac yn goruchwyllo gwaith y Prif Swyddog Gweithredol .
- ✓ Gwneud yn siŵr bod ADC yn dilyn ei bolisiau a'i reolau.
- ✓ Gwirio cynnydd ar y cynllun strategol a chynghori'r Prif Swyddog Gweithredol am waith yn y dyfodol.
- ✓ Cynrychiolwch ADC pan ofynnir iddynt.
- ✓ Cymryd rhan mewn adolygiadau o berfformiad ymddiriedolwyr.
- ✓ Cael cyngor proffesiynol pan fo angen.
- ✓ Cyflawni dyletswyddau rhesymol eraill pan ofynnir iddynt.

Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud yn bersonol:

- ✓ Defnyddio gofal a'ch sgiliau i helpu ADC i redeg yn dda.
- ✓ Cymryd rhan mewn cyfarfodydd. Dweud wrthym os na allwch fynychu.
- ✓ Dweud wrth y Cadeirydd ar ddechrau cyfarfod os oes gennych wrthdaro buddiannau.
- ✓ Dilyn y Cod Ymddygiad Ymddiriedolwyr.
- ✓ Cadw gwybodaeth breifat yn gyfrinachol.
- ✓ Dilyn polisiau ADC.